

## Busnes a Rheolaeth

Amser - 1.5 awr

**Atebwch DRI chwestiwn - Un o bob Rhan - mae'r holl gwestiynau yn gyfwerth eu marciau.**

**Dangoswch yn glir sut y daethoch i'ch atebion.  
Datganwch unrhyw ragdybiaethau a wnewch, a'u hesbonio.  
Cewch ddefnyddio cyfrifiannell nad oes modd ei rhaglennu.**

**RHAN A** - Atebwch **UN** cwestiwn o'r rhan hon

1. Cyflenwyr offer cegin yw Red a Blue ac maent yn cynnig credyd. Mae'r holl bryniannau gan gyflenwyr yn cael eu gwneud ar delerau credyd. Mae holl werthiannau Red yn cael eu gwneud ar gredyd, ond mae chwarter o werthiannau Blue yn cael eu gwneud mewn arian parod a'r gweddill ar gredyd.

### Crynodeb o Ddata Ariannol Allweddol 2016

	Red £m	Blue £m
Gwerthiannau	36	36
Cost y Gwerthiannau	22	32
Ar 31/12/2016		
Arian Parod a Banc	2	0
Gorddrafft y Banc	0	5
Credydwy'r Hirdymor	5	1
Credydwy'r Masnach	1	5
Dyledwy'r Masnach	3	4
Stoc	4	2

**Mae angen i chi:**

- a) Gyfrifo'r cylch cyfalaf gweithio i'r ddau gwmni. **(20 marc)**
- b) Rhoi'ch sylwadau ar reolaeth cyfalaf gweithio pob cwmni, a'u cymharu, ar sail y cylch cyfalaf gweithio. **(7 marc)**
- c) Esbonio'r manteision a'r anfanteision os bydd busnes yn dal stoc. **(7 marc)**

**(Cyfanswm 34 marc)**

2. Mae gan Westy Sandy Bay 30 o ystafelloedd a chyfanswm o 45 gwely. Y gyfradd safonol yw £60 y pen y noson. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn awyddus i ddadansoddi'r ffactorau amrywiol a allai effeithio ar broffidioldeb y flwyddyn nesaf ac mae wedi darparu'r data ar brisiau a chost hanesyddol i'r cyfnod cyfrifeg a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2015. I'r flwyddyn nesaf (sef y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Rhagfyr 2017) mae'n disgwyl mai 60% fydd y gyfradd llenwi ystafelloedd. Bydd 20% o dreth ar elw. Y costau newidiol yw £20 y pen y noson ac fe amcangyfrifir mai £250,000 yw cyfanswm y costau sefydlog.

**Mae angen i chi:**

- a) Esbonio cysyniad Ffin Diogelwch mewn sefyllfa o'r fath a ddisgrifir yn y cwestiwn. **(5 marc)**

- b) Amcangyfrif trothwy elw i'r cwmni mewn unedau a gwerth gwerthiannau. Yng ngoleuni disgwyliadau'r Rheolwr Gyfarwyddwr, cyfrifwch hefyd ffin diogelwch y cwmni a'r elw disgwyliedig ar ôl treth. **(17 marc)**

Mae digwyddiadau ariannol diweddar wedi dylanwadu ar yr amcangyfrifon gwreiddiol o'r costau gweithredu. Disgwylir erbyn hyn y bydd y costau newidiol yn codi 10% a'r costau sefydlog yn codi 5%. Mae'r Rheolwr Marchnata yn credu mai cynyddu pris gwerthiannau 2% yw'r cynnydd mwyaf posib y gellid ei drosglwyddo i'r cwsmeriaid heb golli unrhyw fusnes.

**Mae angen i chi:**

- c) Amcangyfrif y trothwy elw newydd mewn unedau a gwerth gwerthiannau. Cyfrifwch hefyd yr elw newydd ar ôl treth a'r ffin diogelwch newydd. **(8 marc)**

- d) Amcangyfrif y gyfradd llenwi ystafelloedd angenrheidiol i gyrraedd y trothwy elw gyda'r lefelau newydd o gostau a phrisiau. **(4 marc)**

**(Cyfanswm 34 marc)**

3. Nid yw gweithgynhyrchwr wedi gallu dod o hyd i'r holl ddeunydd sydd ei angen arno i gynhyrchu ei dri chynnyrch (A, B ac C). Mae'r tabl isod yn gosod y data allweddol.

	A	B	C
Galw (Unedau)	1,000	2,500	2,000
Pris yr Uned (£)	0.90	1.20	1.20
Cost y deunydd fesul uned (£)	0.25	0.58	0.75
Cost y llafur fesul uned (£)	0.60	0.55	0.35

**Mae angen i chi:**

a) Bennu'r maint o bob cynnyrch y dylai'r cwmni ei wneud i sicrhau'r elw mwyaf posib pan na fydd ond gwerth £2,000 o ddeunydd ar gael.

**(17 marc)**

b) Esbonio natur cyllidebu a'r rhesymau amdano, a'r problemau a allai godi wrth baratoi cyllideb.

**(17 marc)**

**(Cyfanswm 34 marc)**

**RHAN B - Atebwch UN cwestiwn o'r rhan hon**

4. 'Mae economeg yn ymwneud â phrinder, dewis a chost cyfle.' Esboniwch beth mae hynny'n ei feddwl gan roi enghreifftiau i ategu'ch ateb. Sut mae'r egwyddorion dewis ar sail cost cyfle yn gallu cael eu cysylltu â phenderfyniadau rhieni sydd â phlant bychain ynghylch a fyddant yn chwilio am gyflogaeth ai peidio?

**(33 marc)**

5. Esboniwch sut mae mantais absoliwt a mantais gymharol yn wahanol i'w gilydd.

**(8 marc)**

**a)** Gall Cymru gynhyrchu dur a menyn. Tybiwch mai dyna'r unig ddau gynnyrch a wneir, a bod 1 miliwn o weithwyr, a bod pob gweithiwr yn gallu cynhyrchu naill ai 3 tonnell o ddur neu 5 tonnell o fenyn mewn un flwyddyn:

**b)** Beth yw cost cyfle cynhyrchu un tonnell o ddur yng Nghymru? Beth yw cost cyfle cynhyrchu un tonnell o fenyn yng Nghymru? Esboniwch y cyswllt rhwng costau cyfle y ddau gynnyrch hyn.

**c)** Trafodwch yn gryno sut mae cost cyfle yn sylfaenol i gysyniad mantais gymharol, gan roi'ch sylwadau ar arwyddocâd y ddau i ddisgyblaeth economeg.

**(25 marc)**

**(Cyfanswm 33 marc)**

6. Trafodwch a yw newid yn yr hinsawdd yn gyfle ynteu'n fygythiad i fusnesau yn yr amgylchedd busnes presennol.

**(33 marc)**

**RHAN C** - Atebwch **UN** cwestiwn o'r rhan hon

7. Trafodwch yr effeithiau amgylcheddol negyddol a chadarnhaol y gallai twristiaeth eu cael ar gyrchfan dwristiaid. Rhowch enghreifftiau i ategu'ch ateb.  
**(33 marc)**
  
8. Ym mha ffordd y mae 'brand' yn wahanol i 'gynnyrch'?  
**(33 marc)**
  
9. Diffiniwch yr ymadrodd 'moeseg', a chymhwyso'r ddisgyblaeth honno i gysyniad marchnata; esboniwch beth yw'r normau moesegol cyffredin a ddefnyddir mewn marchnata.  
**(33 marc)**